Andrew Davies AC/AM
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Finance and Public Service Delivery

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref: HWLG(3)-00-08

Aelodau Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

29 Ebrill 2009

Annwyl Gydaelod,

**Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol – Dadl yn y Cyfarfod Llawn, 1 Ebrill, 2009-05-13**

Hoffwn unwaith eto ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol am ei adroddiad ar fyrddau gwasanaethau lleol. Rwyf yn croesawu'r adroddiad a'r ddadl a ysgogodd yn y Cyfarfod Llawn ar Ebrill 1.

Roeddwn yn falch bod aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi gwaith caled, ymroddiad a brwdfrydedd y Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) a gyflwynodd dystiolaeth. Roeddwn hefyd yn falch o glywed aelodau yn y ddadl yn ailddatgan eu cefnogaeth i fodel y BGLl a'r posibilrwydd y gall fynd i'r afael â'r "materion drwg" sy'n croesi ffiniau sefydliadau, megis gwella gofal a chymorth i'n dinasyddion hŷn a'n dynasyddion sy'n agored i niwed, gweithio gyda chymunedau i ddatblygu modelau gwasanaethau sy'n adlewyrchu eu hanghenion a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc.

Mae'r cwestiynau a godwyd yn ystod y ddadl yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- tryloywder a chraffu;
- cynaliadwyedd yr hyn a gynigir;
- cynaliadwyedd cefnogaeth barhaol lefel uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- gallu'r trydydd sector i weithio gyda'r model;
- gallu sefydliadau eraill i weithio gydag ef;
- effaith ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd.

Byddaf yn ymateb i bob un o'r rhain yn eu tro.

**Tryloywder a chraffu**

Nid yw BGLlau yn endidau statudol. Mae angen i lawer o'u penderfyniadau o ran trefniadau llywodraethu gael eu gwneud drwy'r prosesau gwneud penderfyniadau o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Andrew.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)Printed on 100% recycled paper*

**Andrew Davies AC/AM**
**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Finance and Public Service Delivery**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

fewn sefydliadau partner. Rôl BGLlau yw sicrhau bod pethau yn digwydd ac y caiff agenda'r bartneriaeth mewn ardal benodol (fel y nodwyd yn y strategaeth gymunedol a chynlluniau lleol eraill) ei chyflawni.

Dylai BGLlau sicrhau bod momentwm ac y gellir cyflawni ymrwymiadau partneriaeth yn gyflym. Mae angen uwch arweinwyr i ymdrin â rhwystrau lleol sydd i gyflawni'r gwaith mewn partneriaeth. Weithiau bydd hyn yn golygu cynnal trafodaethau anodd rhwng arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus. Un o gryfderau'r model BGLl yw ei fod wedi cynnig fforwm i gynnal y trafodaethau hyn, i faterion gael eu datrys ac i gydberthnasau symud ymlaen.

Mae llawer o dryloywder eisoes yn perthyn i drefniadau'r BGLlau ac rwyf wedi nodi dolennau i rai gwefannau BGLlau fel y gall aelodau weld y gwaith da sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Mae BGLlau eraill yn y broses o ddiweddaru eu gwefannau er mwyn cynnig gwybodaeth o'r un safon.

http://www.monmouthshire.gov.uk/site/scripts/documents_info.php?categoryID=720&documentID=221
http://www.conwycommunitystrategy.org.uk/section.asp?cat=5699&Language=2
http://www.ceredigion2020.org.uk/index.cfm?articleid=5511
http://www.cardiffproudcapital.co.uk/content.asp?nav=113&parent_directory_id=2&language=CYM&pagetype=&keyword=

Fodd bynnag, cytunaf yn llwyr fod rôl craffu lleol yn ffactor allweddol i lwyddiant y BGLlau wrth fynd i'r afael â materion mawr sy'n effeithio ar ddinasyddion yn eu hardaloedd, nid yn unig er mwyn iddynt roi cyfrif am eu gwaith, ond hefyd fel modd i lunio gwaith y BGLlau ar y materion hyn. Er bod gan drefniadau craffu o fewn Cynghorau bwerau eang i adolygu unrhyw beth sy'n effeithio ar ddinasyddion eu hardal, rydym yn ceisio cryfhau ac ehangu'r rhain drwy bwerau mesurau llywodraethu a chraffu yng Nghymru sy'n rhan o gynnwys y Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu sydd ar hyn o bryd gerbron Senedd y DU.

Gyda'r pwerau hyn rydym yn ceisio sicrhau bod trefniadau craffu lleol yn dod yn ddigon cadarn ac aeddfed i gynnig lefel o hunanreoleiddio lleol y gellir ymddiried ynddi; sy'n canolbwyntio fwy ar yr allanol ledled y gwasanaethau cyhoeddus; ac, yn bwysicach na hynny, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Er mwyn cyflawni hyn, byddai disgwyl i Gynghorau weithio'n agosach gyda'u partneriaid er mwyn craffu ar faterion ymhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gwaith y BGLl o safbwynt eu dinasyddion - waeth pwy sy'n cyflenwi'r gwasanaethau. Mae fy nghydweinidog, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn bwriadu cyflwyno cynigion ar y materion hyn unwaith y bydd cymhwysedd deddfwriaethol wedi ei drosglwyddo.

Nid oes gwrthwynebiad, o ran egwyddor, i swyddog o Lywodraeth y Cynulliad fod yn rhan o'r broses graffu ar gyfer byrddau gwasanaethau lleol. Y peth pwysig yw bod yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Andrew.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)Printed on 100% recycled paper*

Andrew Davies AC/AM
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Finance and Public Service Delivery



glir ar yr hyn a olyga craffu. Ni fyddai'n addas pe byddai pwyllgor craffu awdurdod lleol yn ceisio defnyddio'r cyfle i holi swyddog Llywodraeth y Cynulliad ar bolisi cenedlaethol, oherwydd bod craffu cenedlaethol yn ymwneud â Phwyllgorau'r Cynulliad. Byddai'r craffu yn ymwneud â'u cyfraniad i'r bwrdd gwasanaethau lleol, nid eu rôl genedlaethol na rôl genedlaethol eu cydweithwyr, na manylion gweithredu prosiect sydd yn cael ei gyflwyno gan bartneriaid lleol.

**Cynaliadwyedd yr hyn a gynigir**
Credaf y bydd yn gynaliadwy. Cyn cwblhau'r flwyddyn beilot, roedd BGLlau yn ymsefydlu mewn llawer o ardaloedd eraill ledled Cymru a bu modd i ni weithio gyda hwy, drwy gymorth uwch was sifil, yn yr un modd ag yn y cynlluniau peilot. Mewn gwirionedd mae rhai o'r cynlluniau peilot Kafka yn gweithredu mewn ardaloedd nad oeddynt yn rhan o'r cynllun peilot fel Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Gwelodd ardaloedd y tu allan i'r cynlluniau peilot werth y model ac roeddent yn awyddus i sefydlu eu BGLlau eu hunain. Drwy gymorth cynrychiolwyr a oedd yn uwch weision sifil a thîm BGLlau Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cydweithio â hwy i ddarparu cymorth ac anogaeth i ddatblygu eu BGLlau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ail Drywydd BGLl sy'n adeiladu ar y gwersi cynnar a ddysgwyd gan y cynlluniau peilot. Rwyf wedi nodi'r ddolen berthnasol i'r we isod:

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/localserviceboards/routemap/?lang=cy

Ceir ymrwymiad eang a amlygwyd gan bresenoldeb dros 200 o uwch-reolwyr ledled y gwasanaethau cyhoeddus yn ail gynhadledd BGLl fis Tachwedd diwethaf. Roedd hwn yn gynhadledd hyd yn oed mwy na'r flwyddyn flaenorol a daeth cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru nid dim ond o ardaloedd y cynlluniau peilot. Rydym wedi gweld galw enfawr am ddigwyddiadau tebyg, a hefyd ag am ein cylchlythyr i BGLlau a gyhoeddir bob deufis. Rwyf wedi nodi dolen i'r rhifyn diweddaraf sy'n cynnwys adolygiad o'r gynhadledd ac erthyglau gan BGLlau Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot.

http://www.wales.gov.uk/topics/improvingservices/localserviceboards/news/?lang=cy

Derbyniodd pob BGLl grant cymorth datblygu o £50,000 yn 2008-09 a byddant yn derbyn yr un swm yn 2009-10. Defnyddiwyd yr arian hwn i helpu i sefydlu'r BGLlau ac i'w galluogi i barhau i weithredu, ac i gyflawni'r prosiectau cytundebau cyflenwi lleol.

O ganlyniad i ymrwymiad cryf lleol, mae BGLl wedi'i sefydlu ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae pob ardal wedi nodi cyfres o flaenoriaethau lleol i'w cyflawni fel rhan o'r cytundeb cyflenwi lleol.

Bu peth myfyrio yn ystod y ddadl ynghylch a oedd angen 22 BGLl newydd. Caiff y strategaethau cymunedol â'r partneriaethau statudol y mae BGLlau yn deillio ohonynt, eu sefydlu ar lefel ardal awdurdod lleol, yn unol â'r gyfraith. Mae

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Andrew.Davies@wales.gsi.gov.uk
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)Printed on 100% recycled paper*

Andrew Davies AC/AM
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Finance and Public Service Delivery

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

hyblygrwydd yn allweddol. Gellir mynd i'r afael â rhai materion ar lefel ardal awdurdod lleol unigol tra ei bod yn well mynd i'r afael ag eraill drwy'r BGLlau yn cydweithio dros ardal ehangach. Mae BGLlau Conwy a Sir Ddinbych yn datblygu prosiect cynllunio gweithlu ar y cyd, ac mae Merthyr a Rhondda Cynon Taf yn gweithio ar brosiect ar y cyd i atal camddefnyddio alcohol. Beth sy'n bwysig yw bod BGLlau yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio lle y mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny a bydd Gweinidogion a swyddogion y Cynllun Gofodol yn annog a chefnogi'r datblygiadau hyn ar y cyd.

**Cynaliadwyedd cefnogaeth barhaol lefel uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru**
Fel y dywedais yn y ddadl, mae rôl yr uwchswyddog ar bob un o'r BGLlau yn dwyn manteision sylweddol i'r byrddau a cyfleoedd datblygu gwirioneddol i'r gwasanaeth sifil. Felly er bod hyn yn fuddsoddiad sylweddol o ran amser yr uwch staff, mae'n hollol gywir ei fod yn cael y flaenoriaeth hon.

Mae pob un o'r uwch-gynrychiolwyr wedi gwirfoddoli am y rôl ac wedi gorfod bodloni eu hunain y gallant ei chyflawni ochr yn ochr â'u prif ddyletswyddau. Caiff y modd y maent yn ymdopi ei fonitro drwy'r systemau rheoli perfformiad arferol. Mae trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i adnewyddu tîm y cynrychiolwyr yn unol â threfn blaenorol dros amser.

Rwyf yn hyderus y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i allu cefnogi'r BGLlau ar lefel uwch, a ddechreuodd gyda'r chwe chynllun peilot ardal. Rwyf wedi amgáu rhestr o unigolion, eu rôl o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r BGLlau y maent yn aelod ohonynt.

Credaf fod y garfan hon yn cynrychioli croestoriad ardderchog o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cwrdd fel grŵp o bryd i'w gilydd er mwyn gallu rhannu eu profiad a'u dysgu o fewn y grŵp ac ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn ein cynorthwyo i ddatblygu gwell ddealltwriaeth o heriau cyflenwi sy'n wynebu sefydliadau lleol a'n cynorthwyo i gyflenwi polisi effeithiol. Rwyf wedi cwrdd â'r grŵp hwn ar sawl achlysur ac wedi cael eu hymrwymiad a'u sgil wrth gydbwyso eu rolau portffolio a BGLlau yn galonogol. Nid oes rheswm gennyf i gredu na fyddwn yn gallu cynnal y lefel uchel hon o ymrwymiad a'i datblygu.

**Gallu'r trydydd sector i weithio gyda'r model**
Rwyf yn deall gofidiau'r aelodau ynglŷn â gallu'r trydydd sector i weithio gyda'r BGLlau. Fodd bynnag, mae cyfarwyddwr lleol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) yn aelod o bob un o'r 22 BGLl ac rydym yn cefnogi parhad y trefniant hwn yn gryf. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i gynllunio a chyflenwi rhaglen ddatblygu ar gyfer aelodau trydydd sector y BGLlau.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae arian ar gael i bob BGLl y gellir ei ddefnyddio i alluogi cysylltu'n effeithiol â'r trydydd sector os yw partneriaid lleol yn rhoi blaenoriaeth i hyn. Ar hyn o bryd mae cynnig blaenoriaeth 4 Cronfa Gymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Andrew.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)Printed on 100% recycled paper*

Andrew Davies AC/AM
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Finance and Public Service Delivery

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ewrop yn cael ei ddatblygu a gaiff ei anelu at gryfhau gallu'r trydydd sector i gyfrannu i waith y BGLlau.

**Gallu sefydliadau eraill i weithio gydag ef**
Un o nodweddion pwysicaf y model BGLl yw ei hyblygrwydd. Mae aelodaeth graidd wedi'i hawgrymu a dengys y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor o'r cynlluniau peilot bod ardaloedd gwahanol wedi addasu'r aelodaeth graidd hon gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol a'r materion dan sylw. Mae hefyd yn bwysig cofio bod y BGLl yn datblygu fel canol y trefniadau partneriaeth lleol mewn ardal, felly dylai sefydliadau geisio gweithio gyda'r bartneriaeth y gallant wneud y cyfraniad mwyaf sylweddol iddi. Felly hefyd, gyda'r BGLl, nid yw'n angenrheidiol bod gan y sefydliad partner 'le wrth y bwrdd' er mwyn ffurfio a chyflenwi prosiectau. Mae hyblygrwydd yn galluogi partneriaid i benderfynu'r ffordd orau o wneud cyfraniad i gyflawni'r agenda.

**Effaith ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd**
Rwyf wedi bod mewn cysylltiad ynglŷn â rhai o'r pwyntiau a godwyd gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae eisoes wedi penderfynu y bydd yn ofynnol i bob BGLl enwebu cyfarwyddwr gweithredol i weithio gyda phob BGLl i sicrhau lefel uchel o ymgysylltu. Bydd y cyfarwyddwr hwn yn gyfrifol am drafod materion yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth i breswylwyr yr ardal BGLl, a bydd yn ysgrifennu at y BGLlau newydd i nodi ei gofynion yn glir. Nid oes gan y Gweinidog gynlluniau i newid statws presennol y gwasanaethau cymdeithasol.

Yn gywir,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Andrew.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)Printed on 100% recycled paper*